NEUADD RHYDYPENNAU

Gwelliannau Arfaethedig 2023

Rydym wedi cwblhau sawl gwelliant i gyfleusterau'r neuadd yn ystod y blynyddoedd diweddar. Nawr mae'r Pwyllgor am wneud gwelliannau pellach.

Mae dwy elfen i'r prosiect newydd:

1) **Ail-strwythuro'r toiledau a'r mannau storio.**

Bwriedir:

- Darparu cyfleusterau toiled newydd gyda gwelliannau yn cynnwys mynediad llawn i'r anabl yn ogystal â chyfleusterau newid babanod.

- Creu gofod preifat newydd y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cwnsela, triniaethau, therapïau ayb. Byddai mynediad i'r stafell yn uniongyrchol o'r tu allan (er sicrhau preifatrwydd) yn ogystal â thrwy'r neuadd.

- Ail-strwythuro'r 'hen' doiledau i ddarparu mannau storio hyblyg.

2) Ffrynt y Neuadd.

Bwriedir:

- Gosod drysau newydd er mwyn gwella mynediad y Neuadd.

- Gosod ramp estynedig newydd ac ehangach er mwyn gwella mynediad i'r neuadd i holl aelodau'r gymuned.

Bydd y newidiadau hyn yn gostus ac ni ellir eu cwblhau heb gymorth grantiau. Ni chawn arian grantiau os na fyddwn wedi cysylltu â chi, a'ch bod chi'n cefnogi ein cynigion. Felly, os gwelwch yn dda, treuliwch ychydig o funudau i gwblhau'r holiadur atodedig.

Diolch am eich cymorth.